

Lluniwyd y llyfryn hwn i roi syniad i chi o beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cael endosgopi drwy gapsiwl. Bydd ei ddarllen yn eich helpu i wneud penderfyniad gwybodus o ran cytuno i'r archwiliad.

Pam mae angen i mi gael endosgopi drwy gapsiwl?

Fe'ch cynghorwyd i gael yr archwiliad hwn ar eich coluddyn bach i helpu i ganfod achos eich symptomau, gan hwyluso'r driniaeth ac os oes angen, penderfynu ar brofion ychwanegol.

Mae nifer o resymau dros gynnal y prawf hwn gan gynnwys:-

- Anemia diffyg haearn
- Efallai eich bod wedi gwaedu o ardal nad yw'n bosibl ei chyrraedd gan Endosgopi confensiynol.
- Asesu pwysigrwydd clinigol yr abnormaleddau a welwyd yn sgil prawf CT neu MRI.
- Asesu cyflwr sy'n bodoli eisoes e.e. Clefyd Llidiol y Coluddyn.

Beth yw endosgopi drwy gapsiwl?

Mae'r prawf hwn yn ffordd fanwl gywir o edrych ar leinin y coluddyn bach. Mae'r driniaeth yn cynnwys llyncu capsawl bach (tua maint pilsen fitamin fawr). Yna bydd y capsawl yn pasio'n naturiol drwy eich llwybr treulio. Wrth iddo deithio drwy eich coluddyn bach bydd y capsawl yn cymryd tua 50,000 o ddelweddau. Bydd angen i chi wisgo gwregys synhwyrdd sydd wedi'i leoli o amgylch eich abdomen. Yna mae'r gwregys yn cael ei gysylltu â blwch recordio data bach sy'n cael ei gadw mewn bag ysgwydd.



Mae'r capsiwl yn trosglwyddo'r delwedddau y mae'n eu dal i'r gwregys synhwyrdd ac yna caiff y rhain eu storio yn y recordydd data. Mae'r driniaeth fel arfer yn cymryd 8 awr i'w chwblhau ond nid oes angen i chi aros yn yr adran drwy'r dydd. Ar y diwrnod byddwch yn cael amser i ddychwelyd i'r uned ac ar ôl dychwelyd bydd yr offer yn cael ei dynnu.

Pa ddewisiadau eraill sydd?

Mae'n debyg y byddwch eisoes wedi cael archwiliadau eraill sydd wedi bod yn amhendant a dyna pam y gofynnwyd am endosgopi drwy gapsiwl.

Paratoi:

Cyn i chi baratoi'r coluddyn, cysylltwch â'r uned ar 01633 234225 i gael rhagor o gyngor os oes gennych glefyd y siwgr, os ydych yn feichiog neu os oes gennych reolydd calon.

Er mwyn i'r prawf fod yn llwyddiannus, mae angen cael golwg clir ar eich coluddyn bach a dyna pam mae angen i chi baratoi'r coluddyn drwy ddefnyddio'r pecyn yr anfonwyd atoch. Dilynwch y cyfarwyddiadau sydd wedi'u hamgáu gyda'r pecyn paratoi.

Mae'n bwysig nad ydych yn bwyta unrhyw beth ar ôl 10pm ar y noson cyn eich prawf. Gallwch gael llymeidiau bach o ddŵr yn unig ar ôl yr amser hwn ond nid 2 awr cyn eich apwyntiad.

Beth am fy meddyginiaeth?

Peidiwch â chymryd unrhyw dabledi **Haearn** am **1 wythnos** cyn eich apwyntiad.

Dylech allu parhau ar unrhyw feddyginiaeth arall ond os ydych yn ansicr yna cysylltwch â'r uned.

Am faint byddaf yn yr adran endosgopi?

I ddechrau gallwch ddisgwyl bod yn yr uned am hyd at awr wrth i ni gwblhau eich asesiad a pharatoi'r offer. Bydd angen i chi ddychwelyd ar adeg a drefnir gan y nyrs er mwyn tynnu'r offer, ond bydd hwn yn ymweliad byr.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i fi gyrraedd?

Gwisgwch ddillad rhydd ar y diwrnod mewn dwy ran e.e. trowsus loncian a chrys T neu sgert/trowsus gyda gwasg elastig.

Pan fyddwch yn cyrraedd yr adran bydd nyrs gymwysedig yn cwrdd â chi a fydd yn holi ychydig o gwestiynau i chi er mwyn cwblhau asesiad meddygol. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y nyrs yn sicrhau eich bod wedi deall yr hyn sy'n gysylltiedig â'r driniaeth ac yn trafod unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych. Gofynnir i chi hefyd lofnodi ffurflen gydsynio.

Yr Archwiliad

Bydd y nyrs yn gosod y gwregys synhwyrdd o amgylch eich abdomen ac yna bydd hyn yn cael ei gysylltu â'r blwch recordio data (gweler y delweddau). Cyn i chi lyncu'r capsiwl bydd y nyrs yn rhoi ychydig o feddyginiaeth i chi a fydd yn helpu i wasgaru unrhyw swigod aer yn eich coluddyn bach. Yna gofynnir i chi lyncu'r capsiwl gydag ychydig o ddŵr.

Gallwch adael yr uned ar ôl llyncu'r capsiwl.

Bydd y nyrs yn rhoi amser apwyntiad i chi ddychwelyd a chyfarwyddiadau ynghylch pryd y gallwch fwyta ac yfed. Os ydych wedi gorfod teithio gryn bellter efallai na fydd yn bosibl i chi fynd adref felly mae croeso i chi aros yn yr uned. Cofiwch, os ydych yn dymuno aros yn yr uned, na allwn ganiatáu i berthnasau/ffrindiau a allai fod wedi dod gyda chi aros yn yr uned.

Sylwer bod yr ysbyty wedi'i leoli yn agos at ganol y ddinas (tua 10 munud ar droed). Wrth wisgo'r offer dylech gymryd gofal a sylw dyladwy i osgoi unrhyw ddifrod damweiniol.

Risgiau'r weithdrefn

Ychydig iawn o risgiau neu gymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag endosgopi drwy gapsiwl.

Fodd bynnag:-

- Efallai na fydd rhai cleifion yn pasio'r capsiwl yn naturiol. Cyfeirir at hyn yn gyffredin fel cadw capsiwl. Gallai hyn yn *anaml iawn* arwain at lawdriniaeth i dynnu'r capsiwl ac asesu'r achos posibl.
- Os nad yw'r gwaith o baratoi'r coluddyn wedi gweithio'n llwyr, gallai'r delweddau o'r capsiwl fod yn annigonol.
- Weithiau mae'r driniaeth yn anghyflawn gan nad yw'r capsiwl wedi cyrraedd diwedd y coluddyn bach yn ystod y driniaeth 8 awr.
- Mae yna hefyd *risg brin iawn* o anadlu capsiwl i mewn (y capsiwl yn mynd i mewn i'r ysgyfaint) tra bod cleifion yn ceisio llyncu'r bilsen gamera.

Nid yw rhai cleifion yn gallu llyncu'r capsiwl ac felly efallai y bydd angen ei osod drwy endosgopi. Ni ellir trefnu hyn bob amser ar ddiwrnod prawf a fethwyd gan y byddai angen i ni drefnu endosgopydd a neilltuo amser ar gyfer y driniaeth. Felly, efallai y bydd angen i chi ddychwelyd i'r uned ar ddiwrnod arall.

Bydd y nyrs yn gallu rhoi gwybod i chi beth i'w ddisgwyl os bydd hyn yn digwydd i chi.

Pwyntiau cyffredinol i'w cofio

Os na allwch gadw eich apwyntiad, rhowch wybod i'r adran endosgopi cyn gynted ag y bo modd.

Ni all yr ysbyty dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golli neu ddifrod i'ch eiddo personol yn ystod eich amser ar y safle hwn.

Cyfarwyddiadau rhyddhau yn dilyn endosgopi drwy gapsiwl.

Ar ôl i'r offer gael ei dynnu, byddwch yn cael eich rhyddhau o'r uned (mae hyn fel arfer 8 awr ar ôl i chi lyncu'r capsiwl). Cewch fwyta ac yfed fel arfer wedi hynny. Mae'r capsiwl fel arfer yn pasio'n naturiol unrhyw bryd dros y dyddiau nesaf a gellir ei waredu drwy ei fflysio i lawr y toiled.

Mae'n anghyffredin iawn i endosgopi drwy gapsiwl achosi unrhyw gymhlethdodau. Fodd bynnag, os na allwch fod yn sicr eich bod wedi pasio'r capsiwl ac yn profi anghysur stumog difrifol, chwyddo'r abdomen, cyfog neu chwydu neu unrhyw symptom *anarferol* i chi yna dylech ofyn am gyngor meddygol brys. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i chi gysylltu â'ch meddyg teulu neu fynd i'ch ysbyty lleol. Gallwch hefyd gysylltu â'r uned endosgopi ar: 01633 234225 am gyngor rhwng 0800 a 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'n anghyffredin iawn i endosgopi drwy gapsiwl achosi unrhyw gymhlethdodau. Fodd bynnag, os na allwch fod yn sicr eich bod wedi pasio'r capsiwl ac yn profi anghysur stumog difrifol, chwyddo'r abdomen, cyfog neu chwydu neu unrhyw symptom *anarferol* i chi yna dylech ofyn am gyngor meddygol brys. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i chi gysylltu â'ch meddyg teulu neu fynd i'ch ysbyty lleol.

Gallwch hefyd gysylltu â'r uned endosgopi ar: 01633 234225 am gyngor rhwng 0800 a 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych yn credu nad ydych wedi pasio'r capsiwl ac mae wedi bod o leiaf **pythefnos** ers eich triniaeth yna cysylltwch â ni (**nid** â'ch meddyg teulu) ar y rhif uchod a byddwn yn gallu eich cynghori. Mae angen pelydr-x ar rai cleifion o'u habdomen i gadarnhau a yw'r capsiwl wedi pasio neu wedi'i gadw.

Cofiwch mai yn anaml iawn y caiff capsiwl sydd wedi'i gadw ei ystyried yn argyfwng meddygol.

PWYSIG - Ni ddylech gael sgan MRI oni bai eich bod wedi pasio'r capsiwl.

Bydd canlyniadau eich triniaeth yn cael eu hanfon at eich meddyg teulu a'r meddyg ymgynghorol a'ch cyfeiriodd ar gyfer y prawf.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**